| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 RHAGFYR 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CATRAWD FRENHINOL CYMRU - RHYDDID Y SIR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH - POLISI** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED RHOI RHYDDID Y SIR I GATRAWD FRENHINOL CYMRU A DERBYN ARGYMHELLION** |

1) Cyflwynwyd cais i'r Cyngor Sir ar 13 Medi 2011 yn nodi'r broses ar gyfer rhoi rhyddid Sir Ynys Môn i Gatrawd Frenhinol Cymru, yn dilyn penderfyniad a wnaed gan y Cyngor ar 8 Mawrth 2011 (mae copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ar 13 Medi 2011 ynghlwm fel gwybodaeth gefndirol, yn nodi'r gweithdrefnau angenrheidiol a'r trefniadau arfaethedig - Atodiad A).

2) Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwerau'r Cyngor dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol, 1972 mewn perthynas â rhoi rhyddid y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru a'r angen i gael mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodau'r Cyngor yn cymeradwyo er mwyn pasio'r cynnig.

3) Ar 13 Medi 2011, fe benderfynodd y Cyngor y dylai Arweinyddion y Grwpiau drafod y materion hyn cyn 8 Rhagfyr.

4) Pe bai'r Cyngor yn penderfynu rhoi'r Rhyddid i'r Gatrawd, bwriedir i'r Seremoni Rhyddid a'r Parêd gael eu cynnal yng Nghaergybi yn 2013.

**Argymhellion**

Bod y Cyngor yn penderfynu:-

i) Rhoi rhydd y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru.

ii) Cadarnhau y bydd y Seremoni'r Rhyddid a'r Parêd yn cael eu cynnal yng Nghaergybi ar 27 Ebrill 2013.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 13 MEDI 2011 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | CATRAWD FRENHINOL CYMRU – RHYDDFRAINT Y SIR |
| **ADRODDIAD GAN:** | HUW JONES |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I YSTYRIED RHOI RHYDDFRAINT Y SIR I GATRAWD FRENHINOL CYMRU A DERBYN ARGYMHELLION |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2011, fe gefnogodd y Cyngor Sir Rybudd o gynigiad gan y Cynghorydd Aled Morris Jones a phenderfynu fel a ganlyn:-

*"Bod y Cyngor yn penderfynu y dylai'r Rheolwr-gyfarwyddwr gychwyn ar broses o ymgynghori gyda'r partïon perthnasol ar ganiatáu Rhyddfraint Sir Ynys Môn i'r Gatrawd Frenhinol Gymreig. Mae hyn i gydnabod eu gwasanaeth i'r genedl."*

1.2 Yn dilyn yr uchod, mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r Uwchgapten (wedi ymddeol) T. P. Wheadon, Ysgrifennydd Cynorthwyol Catrawd Frenhinol Cymru, ynglŷn â threfniadau. Mae nifer o awdurdodau eisoes wedi rhoi Rhyddfraint y Sir i'r Gatrawd er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng Catrawd Frenhinol Cymru a phobl yr ardaloedd lle bu hanes o recriwtio i'r Gatrawd ar hyd y blynyddoedd.

**2.0 Pŵer i wneud y penderfyniad**

2.1 Mae gan y Cyngor Sir bwerau o dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972 *"to admit to be the honorary freemen of the county or county borough, persons of sitinction and persons who have in the opinion of the Council, rendered eminent services to the county or county borough".* Byddai caniatáu Rhyddfraint y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru yn golygu y byddai enw'r Gatrawd yn cael ei roi ar Restr Gwyr Rhyddion Anrhydeddus y Sir a byddai'r Cyngor yn rhoi'r hawl i'r Gatrawd orymdeithio trwy strydoedd y Sir ar bob achlysur seremonïol gan arddangos eu lliwiau, drymiau'n cael eu curo a bidogau wedi'u gosod. Rhaid nodi y gallai'r Gatrawd ddychwelyd bob 3 neu 4 blynedd os rhoddir y Rhyddfraint.

2.2 Er mwyn gallu rhoi Rhyddfraint y Sir rhaid rhoi sylw i brotocolau a gweithdrefnau arbennig ac i achlysur seremonïol wedi'i drefnu i fodloni rhai meini prawf penodol. Byddai'n rhaid wrth y gweithdrefnau canlynol:-

2.3 Cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn argymell, gan ddefnyddio'i bwerau o dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylai'r Cyngor ystyried cynnig Rhyddfraint y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru. Rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cyngor er mwyn pasio'r cynnig a byddai cynrychiolwyr y Gatrawd yn eu lifrau yn bresennol i dderbyn y cynnig ar ran Catrawd Frenhinol Cymru. Pe câi'r cynnig ei dderbyn, byddai Tîm Prosiect yn cael ei greu i fynd ymlaen gyda'r trefniadau ar gyfer yr achlysur seremonïol. Byddai'r Tîm hwn yn cynnwys y Swyddog Dinesig a chynrychiolwyr o Gatrawd Frenhinol Cymru, Adran Priffyrdd y Cyngor, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Tref Caergybi.

## 3.0 Goblygiadau Refeniw

3.1 Amcangyfrifir bod cost cynnal digwyddiad o'r fath ar gyfartaledd oddeutu £6,000. Nid oes digon o arian ar gael yn y gyllideb ddinesig i allu talu costau o'r fath oherwydd galwadau blynyddol eraill ar y gyllideb. Felly byddai angen sicrhau darpariaeth o'r gronfa digwyddiadau arbennig.

## 4.0 Trefniadau

4.1 Oherwydd dyletswyddau gweithredol yn Afghanistan y flwyddyn nesaf, mae'r Uwch Gapten Wheadon yn awgrymu na ellir trefnu dyddiad hyd nes y byddant wedi dychwelyd a'r posibilrwydd oedd y byddai gorymdaith yn cael ei threfnu, os rhoddir y Rhyddfraint, ar gyfer Gwanwyn 2013. Clustnodwyd 27 Ebrill 2013 ar gyfer digwyddiad o'r fath.

4.2 Bu gan Gaergybi berthynas agos gyda'r Lluoedd Arfog tros y blynyddoedd ac er mwyn adlewyrchu'r berthynas honno, argymhellir bod y Seremoni Rhyddfraint a'r Orymdaith yn cael eu cynnal yn y dref ar y dyddiad hwnnw. Byddai'n rhaid i Gyngor Tref Caergybi fod â rhan yn hyn oll – (ar dîm y prosiect).

## 5.0 Argymhellion

5.1 Bod y Cyngor yn galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar yr un diwrnod â'r cyfarfod cyffredin nesaf o'r Cyngor a drefnwyd ar gyfer 8 Rhagfyr 2011 i'r pwrpas o benderfynu ar roi Rhyddfraint y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru. Rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair er mwyn pasio'r cynnig.

5.2 Gwahodd cynrychiolwyr gwifrog Catrawd Frenhinol Cymru i'r cyfarfod arbennig.

5.3 Cadarnhau y bydd Seremoni'r Rhyddfraint a'r Orymdaith yn cael eu cynnal yng Nghaergybi.